YMCA




# Miniffesto'r YMCAs yng Nghymru 2016

Llety

Addysg a Hyfforddiant

Iechyd a Lles

Gwaith gyda Theuluoedd

Democratiaeth a Chyfranogi

# Rhagair

Mae'r YMCAs yng Nghymru yn gwasanaethu'r cymunedau ble maent yn gweithio ers dros 160 mlynedd. Dechreuodd yr YMCAs yng Nghymru yn 1852 yn gymharol fach, mewn swyddfa fechan yn Stryd y Santes Fair, Caerdydd - bellach, maent yn rhan o fudiad byd-eang sy'n helpu dros 58 miliwn o bobl mewn 119 gwlad ledled y Byd.

Mae'r maniffesto hwn yn bennod newydd yn hanes yr YMCAs yng Nghymru, wrth i ni geisio cryfhau'r cysylltiadau rhyngom ni, i'n galluogi i gynnig y cymorth gorau i'r cymunedau ble'r ydym yn gweithredu.

Er bod Cymru yn le gwahanol iawn i beth oedd pan gawsom ein sefydlu, nid yw anghenion yr unigolion rydym yn eu cynorthwyo yn llai. Mae ein dull cymunedol o weithredu yn caniatáu i ni addasu yn unol â'r anghenion newidiol hyn a pharhau i weithio gydag unigolion i gyflawni eu potensial llawn.

Ym marn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, nid ydynt erioed wedi cael llai o wrandawiad gan lywodraeth. I oresgyn hyn, mae Maniffesto'r YMCAs wedi cael ei greu trwy estyn allan at yr unigolion yn y cymunedau hynny a gwrando ar eu hanghenion. Trwy ofyn y cwestiynau anodd hyn, gallwn fynd at wraidd y newidiadau y bydd rhaid i Gynulliad nesaf Cymru eu gwneud.

Rydym wedi dysgu gan y rhai rydym ni wedi eu cynorthwyo trwy addysg a hyfforddiant beth all wneud trosglwyddo i fyd gwaith yn haws; rydym wedi cynnal nosweithiau pitsa gyda gofalwyr ifanc sy'n aelodau o'n grwpiau cynnal i ddeall beth yw ystyr newid positif iddynt. Ac yn achos y bobl iau a hŷn y mae'r YMCAs yng Nghymru yn cynnig to uwch eu pen iddynt, fe wnaethom ofyn pa atebion sydd eu hangen i roi trefn ar eu bywyd.

Mae'r YMCAs yng Nghymru yn cydnabod, pan fydd gwasanaethau cyhoeddus yn methu, ein gwirfoddolwyr ni sydd ar gael yn aml iawn i gynnig help llaw. Byddwn yn parhau i gynnig yr help llaw hwn i bawb y mae arnynt ein hangen - yn cynnwys ein cynrychiolwyr yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru - oherwydd gwyddom fod Cymru'n gryfach pan fyddwn yn cefnogi ein gilydd.

Andrew Jenkins
Cadeirydd
YMCAs yng Nghumru

Anne-Marie Rogan
Dirprwy Gadeirydd
YMCAs yun Nghymru

# Llety

## Credwn y dylai pawb gael lle diogel i aros.

Gall methu sicrhau llety da niweidio bywyd unigolion yn ddifrifol, a chynyddu eu perygl o ddioddef gan iechyd gwael, tangyflawni yn addysgol, diweithdra a thlodi. Fodd bynnag, dyma'r realiti a wynebir gan niferoedd cynyddol o bobl yng Nghymru. Dyna pam mae'r YMCA yn gwneud cyfraniad blaenllaw at ddatblygu tai rhad arloesol a sicrhau fod pobl ddigartref yn cael rhywle i'w alw yn gartref a chymorth i ddatblygu bywyd gwell.

**I gynorthwyo'r YMCA i gyflawni'r nod hwn...**

**Credwn y dylid** adeiladu rhagor o dai un ystafell wely rhad

**Credwn fod angen** buddsoddi yn natblygiad modelau amgen o ddarparu tai

**Credwn y dylai** rhagor o dai ac adeiladau busnes segur gael eu troi yn dai rhad

**Credwn y dylid** parhau â chynllun *Cymorth Prynu Cymru*

**Credwn y dylid** adolygu'r dull o ddyrannu tai cymdeithasol i gynorthwyo i leihau amseroedd aros

**Credwn y dylid** sefydlu cynllun *Cymorth Rhentu* cenedlaethol

**Credwn y dylid** gwarchod cyllid *Cefnogi Pobl*

**Credwn fod angen** buddsoddi yn y tai a'r cymorth a gynigir i bobl ddigartref

**Credwn y dylai** cynllun Sector Rhentu Preifat fod ar gael ym mhob ardal i gynorthwyo'r sawl sy'n gadael tai â chymorth

# Addysg a Hyfforddiant

## Credwn y dylai bob unigolyn allu cyflawni ei botensial llawn.

Gall gadael addysg heb gymwysterau a sgiliau perthnasol wneud niwed difrifol i ragolygon unigolyn yn y tymor hir. Fodd bynnag, bydd gormod o bobl ifanc yn cael profiad negyddol o addysg, ac yn aml iawn, ar ôl iddynt adael addysg, bydd cyfleoedd i hyfforddi a chanfod gwaith ystyrlon yng Nghymru yn gyfyngedig. Dyna pam bydd yr YMCA yn gweithio bob dydd i sicrhau fod gan unigolion y sgiliau, y cymorth a'r cyfleoedd y mae arnynt eu hangen i ganfod gwaith parhaol a chyflawni eu gwir botensial.

**I gynorthwyo'r YMCA i gyflawni'r nod hwn...**

**Credwn y dylai** cymorth ychwanegol gael ei dargedu at ddisgyblion sydd ar gyrion addysg prif lif

**Credwn y dylai** pobl ifanc gael rhagor o gymorth i ymdopi â phwysau arholiadau

**Credwn y dylai** athrawon gael rhagor o hyfforddiant a chymorth i fynd i'r afael â bwlio

**Credwn y dylai** cwricwlwm *Sgiliau Bywyd* gael ei gyflwyno a dylai fodoli ochr yn ochr â'r cwricwlwm academaidd

**Credwn y dylai** bob myfyriwr gael o leiaf tair wythnos o brofiad gwaith ystyrlon

**Credwn y dylai** rhagor o gyrsiau addysg bellach a hyfforddiant fod ar gael ar-lein

**Credwn y dylai** bob cartref a busnes gael mynediad at fand eang cyflym iawn

**Credwn y dylid** gwneud rhagor i annog cyflogwyr i gyflogi prentisiaid

**Credwn y dylai** pobl hyd at 21 mlwydd oed gael hawl i gael arian i gynorthwyo ag addysg a hyfforddiant

**Credwn y dylai** benthyciadau i fyfyrwyr fod ar gael i'r sawl sydd mewn addysg bellach neu hyfforddiant

**Credwn y dylai** pobl ifanc sydd mewn addysg bellach neu hyfforddiant gael gostyngiad ar bris teithio

**Credwn y dylid** sefydlu gwasanaeth cymorth cyflogaeth newydd i bobl ifanc yn lle Canolfan Byd Gwaith

# Iechyd a Lles

## Rydym yn credu y dylai pawb fwynhau buddion iechyd a lles da.

Mae meddu ar gyflwr corfforol, cymdeithasol a meddyliol positif yn allweddol i sicrhau y gall unigolion gyflawni eu nodau personol a chyfranogi'n llawn yn y gymdeithas. Fodd bynnag, mae gormod o bobl yng Nghymru, yn bobl ifanc a'r henoed fel ei gilydd, sydd ddim yn gwneud digon bob wythnos i gadw'n heini ac iach, ac ni fyddant yn gallu cael y cymorth y bydd arnynt ei angen pan fyddant yn dioddef gan broblemau iechyd. Mae'r YMCA yn cydnabod y cysylltiadau sy'n bodoli rhwng lles corfforol, seicolegol a chymdeithasol. Dyna pam byddwn ni'n defnyddio dull cyfannol ym mhob agwedd o'n gwaith i annog a chynorthwyo pobl i fyw bywyd egnïol ac iach.

**I gynorthwyo'r YMCA i gyflawni'r nod hwn...**

**Credwn fod angen** buddsoddi mewn mentrau chwaraeon cymunedol

**Credwn y dylai** merched a dynion gael cyfle cyfartal i fwynhau chwaraeon a gweithgareddau corfforol

**Credwn y dylai** pobl ifanc allu cael gostyngiad ar bris defnyddio canolfannau hamdden lleol yn ystod *Nosweithiau Pobl Ifanc* wythnosol

**Credwn y dylai** mannau cyhoeddus sydd ar gael yn lleol gael eu cynnal a'u cadw'n well

**Credwn fod angen** rhagor o fentrau i annog pobl i brynu a choginio prydau iach

**Credwn y dylai'r** cyfryngau, busnesau a hysbysebwyr ymddwyn yn gyfrifol a hyrwyddo siapiau cyrff a meintiau cyrff gwahanol

**Credwn y dylai** grwpiau sy'n ymylol yn draddodiadol allu cael mynediad at wasanaethau iechyd priodol

**Credwn fod angen** buddsoddi mewn gwasanaethau adsefydlu a chymorth i'r sawl sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau

**Rydym yn credu** fod angen ymgyrch i roi negeseuon i bobl ifanc ynghylch lleihau niwed mewn perthynas â sylweddau seicoweithredol

**Credwn y dylai** gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc a rhai sy'n agored i niwed gael hyfforddiant ynghylch materion iechyd meddwl

**Credwn y dylai** iechyd meddwl gael yr un flaenoriaeth ag iechyd corfforol yng nghyllidebau'r GIG

**Credwn y dylid** cwtogi amseroedd aros am wasanaethau iechyd meddwl

**Credwn y dylid** darparu rhagor o wasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned a thrwy ddulliau allgymorth

# Gwaith gyda Theuluoedd

## Credwn y dylai bob teulu gael y cymorth sydd ei angen arno i ddatblygu a byw bywyd llawnach.

Mae cael cychwyn cadarn mewn bywyd yn hollbwysig i ddatblygiad tymor hir unigolion a chymunedau. Fodd bynnag, methir a diwallu anghenion gormod o deuluoedd ar draws Cymru ar hyn o bryd, ac mae'n anodd iddynt gael dau ben llinyn ynghyd. Dyna pam bydd yr YMCA yn gweithio gyda phobl o'r crud i fyd oedolion, ac yn cefnogi unigolion a theuluoedd i ffynnu.

**I gynorthwyo'r YMCA i gyflawni'r nod hwn...**

**Credwn y dylid** ehangu cynllun *Dechrau'n Deg* er mwyn gweithio gyda rhagor o deuluoedd

**Credwn y dylid** cynyddu nifer yr ymwelwyr iechyd er mwyn rhoi cymorth i deuluoedd anghenus

**Credwn y dylai** Llywodraeth Cymru wneud adolygiad o ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru

**Credwn y dylid** arbrofi â rhaglenni mwy arloesol yn ystod gwyliau'r ysgol

**Credwn y dylai** rhagor o deuluoedd sydd ag anghenion lefel is allu cael cymorth a chyngor ataliol

**Credwn y dylid** parhau â chynllun *Teuluoedd yn Gyntaf*

**Credwn y dylid** annog undebau credyd i gynnig cynlluniau a mentrau cynilo sydd wedi'u targedu at bobl ifanc

**Credwn y dylid** rhoi rhagor o gymorth i droseddwyr ifanc fel gallant ailymdoddi i fywyd eu cymunedau

**Credwn y dylid** arbrofi â rhagor o ddulliau dan arweiniad cyfoedion i fynd i'r afael â throseddu ieuenctid

**Credwn fod angen** gwneud rhagor o ymchwil ynghylch anghenion gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc

# Democratiaeth a Chyfranogi

## Credwn y dylai pawb fod â llais yn y gymdeithas a chyfranogi'n llawn yn y broses ddemocrataidd.

Dylai pawb fod â chyfran yn y gymdeithas a gallu gwneud dewisiadau doeth fel dinasyddion gweithgar. Fodd bynnag, bydd lleisiau grwpiau ymylol yn cael eu hanwybyddu'n rheolaidd gan wneuthurwyr penderfyniadau yng Nghymru a thu hwnt. Dyna pam rydym ni yn yr YMCA yn credu mewn datblygu ein gwasanaethau yn unol ag anghenion a lleisiau'r unigolion a'r grwpiau hynny a gaiff eu hanghofio yn aml.

**I gynorthwyo'r YMCA i gyflawni'r nod hwn...**

**Credwn y dylid** rhoi'r hawl i bobl ifanc 16 ac 17 mlwydd oed i bleidleisio a sefyll mewn etholiadau

**Credwn y dylid** penodi Gweinidog dros Blant a Phobl Ifanc

**Credwn fod angen** mentrau cymunedol i ennyn diddordeb grwpiau ymylol yn y broses ddemocrataidd

**Credwn y dylai** Cynulliad Cenedlaethol Cymru ehangu ei fentrau i annog pobl ifanc i gyfranogi mewn dinasyddiaeth fyd-eang





Marius, 16

# Amdanom ni

Mae 19 YMCA sy'n gwasanaethu bron iawn 130 cymuned ledled Cymru

Byddwn yn darparu llety diogel â chymorth i bron iawn 1,000 o bobl yng Nghymru bob blwyddyn

Bob blwyddyn, byddwn yn helpu 10,000 o bobl yng Nghymru i ymgysylltu ag addysg a hyfforddiant

Bob blwyddyn, byddwn yn helpu dros 11,000 o bobl ifanc ac oedolion yng Nghymru i fod yn egnïol

Bob blwyddyn, byddwn yn cynorthwyo 7,000 o blant a phobl ifanc yn ein clybiau wedi'r ysgol a'n clybiau gwyliau bob blwyddyn

Mae gennym ni 11,000 o bobl ifanc yng Nghymru sy'n cyfranogi'n rheolaidd yn ein gwaith i ennyn diddordeb pobl ifanc

YMCA
29-35 Farringdon Road
Llundain
EC1M 3JF

Rhif yr elusen: 212810

www.ymca.org.uk

Cynlluniwyd gan Mike Smith, YMCA Barri

Bydd YMCA yn galluogi pobl i ddatblygu eu potensial llawn o ran meddwl, corff ac ysbryd. Cawn ein hysbrydoli gan ein gwerthoedd Cristnogol ac rydym yn ffyddlon iddynt, a byddwn yn creu cymunedau cefnogol, cynhwysol a grymusol y gall pobl ifanc berthyn iddynt a chyfrannu a ffynnu.

CYMORTH A CHYNGOR | LLETY | GWAITH GYDA THEULUOEDD | IECHYD A LLES | ADDYSG A HYFFORDDIANT